WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320502
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 16 Mawrth 2011
Ein cyf: HVT/1273/fgb
Tudalen: 1 o 2

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Darren

## RHAGLEN TECHNIUM

Gofynnodd eich rhagflaenydd, Jonathan Morgan AC, i mi ystyried cais gan Andrew Davies AC i gynnal astudiaeth gwerth am arian lawn o raglen technium yn sgil y pryderon a fynegodd Mr Davies wrth gyflwyno'i dystiolaeth i'r pwyllgor fis Hydref diwethaf. Cafwyd cryn feirniadaeth o sawl ffynhonnell am drefniadau rheoli a pherfformiad y rhaglen, a mis Tachwedd diwethaf, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau y byddai chwech o'r deg technium yng Nghymru yn cael eu tynnu o'r rhaglen. Cytunais mai nawr fyddai'r adeg briodol i ystyried a oes cyfiawnhau dros gynnal astudiaeth gwerth am arian, ac mae fy swyddogion wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r rhaglen fel ag y mae ar hyn o bryd. Ysgrifennaf atoch nawr i gyflwyno fy nghasgliadau.

Nid dyma'r amser priodol i gynnal archwiliad llawn o raglen technium yn fy marn i. Bu cryn adolygu a chraffu ar y rhaglen eisoes, ac mae nawr yn destun newid mawr yn dilyn yr adolygiad polisi yn 2010 a arweiniodd at y penderfyniad i dynnu chwech o'r deg technium o'r rhwydwaith. Ar hyn o bryd, mae prosiect ar waith i reoli'r broses o ddiddymu'r canolfannau technium o'r rhaglen, a sefydlu trefn weithredu newydd ar gyfer y rhai sy'n weddill er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon pellach.

Mae archwiliad mewnol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd er mwyn adrodd i ba raddau y gweithredwyd argymhellion yr archwiliadau mewnol blaenorol. Comisiynodd Llywodraeth y Cynulliad astudiaeth gan yr ymgynghorwyr DTZ er mwyn asesu perfformiad y rhaglen ac argymell dull addas o gynnal gwerthusiad llawn. Bydd yr astudiaeth hon yn sail i adolygiad o drefniadau gwerthuso'r rhaglen. Gyda'i gilydd, mae'r gwaith hwn yn cwmpasu'r rhan fwyaf o'r meysydd y byddaf i'n eu cynnwys mewn astudiaeth gwerth am arian, a byddai'n rhy gynnar i asesu effaith unrhyw newidiadau sylweddol i'r rhaglen ar hyn o bryd. Mae'n debyg ei bod hi'n rhy gynnar cynnal astudiaeth ar hyn o bryd, felly, ac ni fyddai'n ychwanegu fawr ddim at y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud neu ar y gweill. Amgaeaf bapur briffio sy'n nodi pam rwyf wedi dod i'r casgliad hwn yn fanylach (Atodiad A).

Ffôn uniongyrchol: 029 2032 **0510**
E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk

100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

Wrth gwrs, bydd llawer yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Byddaf yn adolygu'r sefyllfa eto pan fydd yr adolygiadau wedi'u cwblhau, ac yn ysgrifennu atoch os oes gennyf unrhyw bryderon nad yw materion pwysig yn cael sylw digonol.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os hoffech drafod y mater hwn.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg: Atodiad A: Rhaglen Technium – Papur Briffio*

## Atodiad A

## RHAGLEN TECHNIUM – PAPUR BRIFFIO

1. Nod rhaglen technium, a ariennir gydag arian cyhoeddus, yw cynhyrchu syniadau arloesol, incwm a swyddi yng Nghymru. Adeiladwyd canolfannau techium fel rhan o'r rhaglen, er mwyn cynnig cartref i gwmnïau bach a aseswyd fel rhai â photensial aruthrol i dyfu. Nod y rhaglen yw deori arloesedd a llwyddiant economaidd ym mhob canolfan trwy leoli'r cwmnïau hyn dan yr un to, darparu pecyn cymorth integredig sy'n cynnig llety, cyfleusterau ar y cyd a chymorth busnes amrywiol i'w helpu i ddatblygu.

2. Agorodd y ganolfan Technium gyntaf yn Abertawe yn 2001 fel rhan o bartneriaeth rhwng Prifysgol Cymru, Abertawe, Awdurdod Datblygu Cymru ac eraill. Yn 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad) ei bod yn bwriadu cyflwyno'r rhaglen fesul cam ledled y wlad.[1] Amcangyfrifwyd y byddai'r rhaglen yn costio £150 miliwn dros 3 blynedd. Ers hynny, adeiladwyd deg technium ac agorwyd rhywfaint o ganolfannau arloesi tebyg eraill nad ydynt yn rhan o'r rhaglen (Atodiad 1).

3. Cafwyd cryn feirniadaeth am berfformiad a dulliau rheoli'r rhaglen technium o sawl ffynhonnell wahanol. Cyflwynodd Gwasanaethau Archwilio Mewnol (IAS) Llywodraeth y Cynulliad adroddiad beirniadol yn haf 2008. Ceisiodd Llywodraeth y Cynulliad fynd i'r afael â llawer o argymhellion yr adroddiad trwy sefydlu prosiect newydd i gryfhau'r rhaglen, a gyhoeddwyd ym Medi 2009 gyda chyllideb o £17 miliwn, wedi'i hariannu rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Roedd Rhaglen Adnewyddu'r Economi, a lansiwyd yn 2010, yn cydnabod perfformiad cymysg y canolfannau technium a bod Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymo i adolygu'r polisi. Daeth yr adolygiad i ben ym mis Tachwedd 2010, pan gyhoeddodd y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau y byddai chwech o'r deg technium yn cael eu tynnu o'r rhaglen.

4. Esboniodd Andrew Davies AC ei amheuon ynglŷn â'r rhaglen i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 23 Hydref 2010, a mynegodd Aelodau Cynulliad eraill bryderon am berfformiad y rhaglen mewn trafodaeth lawn yn dilyn cyhoeddiad y Dirprwy Weinidog ym mis Tachwedd. Yn sgil y pryderon hyn am berfformiad y rhaglen, gofynnwyd i mi ystyried a ddylem gynnal archwiliad llawn o'r rhaglen technium.

5. Deuthum i'r casgliad na fyddai'n briodol cynnal astudiaeth gwerth am arian lawn ar hyn o bryd. Bu'r rhaglen yn destun sawl archwiliad ac adolygiad, gan gynnwys gwerthusiad allanol, a oedd yn cwmpasu llawer o'r meysydd yr hoffwn i eu cynnwys mewn astudiaeth gwerth am arian. Bellach, mae newidiadau mawr ar y gweill i'r rhaglen yn dilyn y penderfyniad i dynnu chwe chanolfan technium o'r rhaglen (a'u cau o bosibl). Mae Llywodraeth y

[1] *Cymru o Blaid Arloesi – Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Arloesi (2002)*

Cynulliad yn paratoi cynllun busnes diwygiedig ar gyfer rhaglen Technium er mwyn gweithredu'r cynlluniau cau, lleihau arian cyhoeddus a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon eraill ynghylch rheoli'r rhaglen. Mae'n debygol iawn ei bod hi'n rhy gynnar i gynnal astudiaeth gwerth am arian, ac y byddai hynny yn ailadrodd unrhyw waith cyfredol ac arfaethedig.

**Mae gwaith craffu ar raglen Technium wedi cwmpasu'r rhan fwyaf o'r meysydd yr hoffem eu cynnwys mewn astudiaeth gwerth am arian, ac wedi cyflwyno casgliadau ac argymhellion cyson.**

6. Cafodd yr archwiliadau a'r adolygiadau canlynol o raglen Technium eu cynnal neu eu comisiynu gan Lywodraeth y Cynulliad:

   a) Archwiliad mewnol o raglen technium yn 2008, a arweiniodd at greu adroddiad Cymru gyfan a phedwar is-adroddiad yn cwmpasu pedair is-adran ranbarthol Adran yr Economi a Thrafnidiaeth sy'n gweinyddu'r canolfannau technium. Cynhaliwyd archwiliad allanol o ganolfan cyfryngau @Wales ym Mae Caerdydd hefyd, sy'n gwneud gwaith tebyg ac a gyflwynodd gasgliadau tebyg hefyd.

   b) Gwaith craffu parhau ar argymhellion yr archwiliad mewnol gan bwyllgor llywodraethu corfforaethol Adran yr Economi a Thrafnidiaeth o ddiwedd 2008.

   c) "Astudiaeth gwmpasu ac adolygiad cychwynnol" o'r rhaglen gan ymgynghorwyr DTZ, yn 2009, i gyflwyno barn gychwynnol ar ddulliau gweithredu a pherfformiad y rhaglen, ac argymell dull o gynnal gwerthusiad llawn. Comisiynwyd y gwerthusiad yn 2008, ond ni chyflwynwyd adroddiad tan fis Tachwedd 2010 ar ôl i Lywodraeth y Cynulliad gwblhau adolygiad polisi ar wahân.

   d) Adolygiad allanol o'r cynllun busnes ar gyfer prosiect wedi'i ariannu gan yr UE i gryfhau dulliau marchnata a rheoli'r technium, gan The Innovation Partnership ym Mehefin 2009. Roedd yr adolygiad yn ystyried a oedd y cynllun busnes yn adlewyrchu canlyniadau'r adolygiadau blaenorol (gan gynnwys gwaith archwilio mewnol) yn ddigonol ac a oedd unrhyw dystiolaeth o risgiau sylweddol.

   e) Adolygiad polisi llawn yn 2010, a arweiniodd at y penderfyniad i dynnu chwech o'r 10 technium o'r rhaglen.

   f) Mae uwch-swyddogion wrthi'n cynnal adolygiad, wedi'i ategu gan archwiliad mewnol, er mwyn asesu i ba raddau mae swyddogion wedi gweithredu argymhellion yr adroddiadau blaenorol yn llawn ac i ba raddau y mae eu camau gweithredu wedi mynd i'r afael â'r prif risgiau.

   g) Adolygiad mewnol gan swyddogion Llywodraeth y Cynulliad, prosiect trefniadau pontio'r rhwydwaith Technium, sydd ar waith ar hyn o bryd er mwyn rheoli'r broses o dynnu'r chwe technium o'r rhwydwaith a datblygu model gweithredol newydd ar gyfer y canolfannau technium sy'n weddill. Disgwylir iddo arwain at gynllun busnes diwygiedig ar gyfer prosiect sydd wedi'i ariannu gan yr UE erbyn Gorffennaf 2011 – bydd angen i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru gymeradwyo hwn.

7. Dyma rai o negeseuon allweddol yr adolygiadau a gwblhawyd:

a) **Bod sail resymegol gref dros sefydlu'r technium cyntaf, ond nid y canolfannau dilynol**. Cafodd y technium cyntaf ei sefydlu ar y sail bod galw mawr am ganolfan arloesi a oedd yn bodoli eisoes, tra bod cryn dipyn o ansicrwydd ynglŷn â'r angen am y lleill. Ni chynhaliwyd astudiaethau dichonoldeb llawn mewn sawl achos.

b) **Nid oedd y rhwydwaith newydd yn seiliedig ar strategaeth genedlaethol glir** gyda safonau cyffredin. Mae'r holl wahaniaethau o ran amcanion, dulliau cyflenwi, strategaethau gadael, meini prawf dewis a dethol ac arferion gweinyddol, wedi creu anghysondebau ledled y rhwydwaith ac yn risg i'r brand technium.

c) **Roedd elfen adfywio i'r rhaglen**. Roedd hyn yn berthnasol i'r technium cyntaf yn Abertawe, a fu'n gymorth i fwrw ymlaen â datblygiad SA1, ond nid oedd mor lwyddiannus o ran y canolfannau technium eraill.

d) **Gwelwyd model ar sail eiddo yn datblygu,** gyda pherthynas landlord-tenant a dim digon o bwyslais ar fentora ac enghreifftiau eraill o gymorth busnes dwys. Ond mae gwaith ymchwil yn dangos mai'r cymorth busnes hwn sy'n allweddol i lwyddiant canolfannau arloesi.

e) **Ffiniau aneglur rhwng swyddogaethau a chyfrifoldebau** canolfannau technium unigol ag is-adran Llywodraeth y Cynulliad a oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r rhaglen.

f) **Ni chafwyd gwybodaeth ariannol reolaidd na gwybodaeth reolaidd am ganlyniadau** ar sail rhaglen gyfan, ac felly nid oedd y rheolwyr yn ymwybodol o gostau net a'r canlyniadau tebygol. Nid oedd yr Archwiliad Mewnol yn gallu cadarnhau holl gostau cyfalaf a chostau rhedeg y rhaglen, ac ni welwyd tystiolaeth o reolwyr yn cymryd camau gweithredu ynghylch canolfannau technium a oedd yn perfformio'n wael. Ar ben hynny, nid oedd disgwyl i'r tenantiaid gyflwyno gwybodaeth hanfodol am drosiant ac elw fel rhan o'r contract.

g) **Graddfeydd meddiannaeth isel**, sef tua 46% ledled yr holl rwydwaith o gymharu â'r meincnod rhyngwladol o 85% ar gyfer canolfannau arloesi. Roedd amrywiaeth eang iawn ledled y rhwydwaith, gyda rhai canolfannau technium yn boblogaidd iawn ac eraill bron yn wag.

h) **Mae'r rhaglen wedi cyflawni ei thargedau gweithgarwch yn fras, ond heb lwyddo cymaint i gyrraedd targedau canlyniadau.** Llwyddodd y rhaglen i ragori ar y targedau o ran creu patentau, nodau masnach a swyddi newydd, ond mae wedi methu â chyrraedd y targedau o ran cynyddu trosiant, ffurfio cwmniau newydd yn y sector uwch-dechnoleg a diogelu swyddi. Roedd amheuaeth ynghylch faint o effaith gwirioneddol a gafodd rhaglen technium o ran creu cysylltiadau rhwng tenantiaid a sefydliadau academaidd. Er hynny, roedd dwy ran o dair o'r swyddi a grëwyd gan denantiaid ar gyfer graddedigion, sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru.

8. Er bod diben a phwyslais yr adolygiadau yn dra gwahanol, roedd ganddynt negeseuon tebyg iawn, ac ni welsom unrhyw anghysondebau rhyngddynt yn ystod ein hadolygiad ni. Maent yn trafod y rhan fwyaf o'r meysydd yr hoffem eu cynnwys mewn astudiaeth gwerth am arian: sail resymegol ac amcanion strategol y rhaglen, dulliau gweithredu, dulliau rheoli'r rhaglen, ei pherfformiad a'r trefniadau monitro a gwerthuso.

**Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithredu ar gasgliadau'r adolygiadau ac yn bwriadu mynd i'r afael â'r risgiau sy'n weddill**

*Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi craffu ar raglen technium yn barhaus ac yn eithaf bodlon gyda'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu argymhellion adroddiadau'r archwiliad mewnol*

9. Roedd gan bwyllgor llywodraethu corfforaethol Adran yr Economi a Thrafnidiaeth gryn ddiddordeb yng nghasgliadau adroddiadau'r archwiliad mewnol, a derbyniodd adroddiadau cynnydd ym mhob cyfarfod yn 2009 a 2010. Gan fod y pwyllgor yn poeni am ddifrifoldeb y casgliadau, cynhaliwyd dau gyfarfod arbennig yn unswydd i drafod y canolfannau technium, ond erbyn Medi 2010, roedd Cadeirydd y pwyllgor yn fodlon gyda'r cynnydd yn gyffredinol. Yn ôl adroddiad ar effaith adroddiadau'r archwiliad mewnol, a baratowyd gan uned gydymffurfio Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn 2010, dim ond un o'r 53 o'r argymhellion y cytunwyd arnynt oedd heb ei weithredu. Dywedodd yr adroddiad fod rhywfaint o ddirywiad wedi bod o ran gweithredu'r argymhellion y cytunwyd arnynt yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni pan gyhoeddwyd yr adroddiad; a bod hyn yn rhannol oherwydd ffactorau allanol fel y Rhaglen Adnewyddu'r Economi ac ansicrwydd ynghylch arian Ewropeaidd. Er hynny, cafodd llawer o'r materion eu gweithredu fel rhan o brosiect wedi'i ariannu gan yr UE ac roedd y wybodaeth ariannol a pherfformiad wedi gwella'n sylweddol, er mai dim ond data cyfyngedig oedd ar gael ar gyfer rhai o'r cyfleusterau o hyd.

*Cynhaliwyd gwerthusiad cychwynnol o raglen technium*

10. Mae adroddiadau'r archwiliad mewnol yn canolbwyntio ar gydymffurfio yn bennaf, er bod llawer o'r arsylwadau a'r argymhellion yn hynod berthnasol o safbwynt gwerth am arian. Mae gwerthusiad DTZ yn cynnig asesiad mwy trylwyr o sail resymegol a pherfformiad y canolfannau technium a'r materion sydd angen eu datrys a'u dwyn ymlaen. Yn arbennig, mae'r adolygiad yn awgrymu methodoleg ar gyfer cynnal gwerthusiad lawn o raglen technium o gymharu ag amcanion y technium cyntaf (yn absenoldeb amcanion cenedlaethol cyffredin pan adeiladwyd y canolfannau technium). Byddai'r dull awgrymedig yn asesu darbodusrwydd, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac effaith net y rhaglen. Byddai gwerthusiad o'r math hwn yn cwmpasu rhan fwyaf o feysydd astudiaeth gwerth am arian.

11. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu a yw am gynnal gwerthusiad llawn hyd yma. Mae'r Uned Ymchwil Economaidd yn aros am fwy o eglurder ynghylch maint a natur y rhaglen yn y dyfodol cyn ymrwymo i ddull gwerthuso

penodol. Mae hyn yn ddealladwy o gofio'r newidiadau mawr sydd dan ystyriaeth ar hyn o bryd.

12. Mae'r cynllun busnes ar gyfer y prosiect a ariennir gan yr UE yn cynnwys ymrwymiad i werthuso'r prosiect yng nghanol y tymor (tair blynedd ar ôl cymeradwyo, yn 2012) ac ar ôl ei gwblhau yn 2015. Mae'r cynllun hefyd yn ymrwymo i gynnal gwerthusiad cychwynnol er mwyn dewis dangosyddion perfformiad ychwanegol i'r dangosyddion craidd a nodwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), gan fod DTZ wedi dod i'r casgliad nad dyma'r dangosyddion craidd mwyaf priodol i fesur llwyddiant y technium. Y bwriad gwreiddiol oedd cwblhau'r gwerthusiad a phennu'r targedau newydd gyda WEFO erbyn Tachwedd 2010, ond mae'r adolygiad polisi wedi achosi oedi o ran cwblhau'r gwaith hwn. Bydd y dull gwerthuso'n cael ei adolygu fel rhan o'r prosiect Trefniadau Pontio a bydd y cynigion yn cael eu cynnwys yn y cynllun busnes diwygiedig ar gyfer y prosiect a ariennir gan yr UE.

*Nod y prosiect a ariennir gan yr UE yw mynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd mewn archwiliadau a gwerthusiadau blaenorol*

13. Y bwriad oedd bwrw ymlaen â llawer o argymhellion adroddiadau'r archwiliad mewnol trwy'r prosiect a ariennir gan yr UE. Cyfanswm y gyllideb bresennol yw £16.3 miliwn dros 6 mlynedd, gyda £7.3 miliwn ohoni wedi'i hariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF); roedd y prosiect wedi hawlio £2.7 miliwn o'r grant ERDF ar 31 Rhagfyr 2010. Nod y prosiect yw cryfhau'r rhaglen trwy:

   a) integreiddio'r cyfleusterau cyfredol i rwydwaith deori technoleg cydlynus er mwyn sicrhau bod busnesau'n cael yr un lefel uchel o wasanaethau a chymorth lle bynnag y maent yn y rhwydwaith;

   b) creu sylfaen gref o genhedlaeth nesaf o denantiaid ar gyfer y rhwydwaith;

   c) creu gweithgareddau cymorth marchnata a TGCh sylfaenol ledled y rhwydwaith er mwyn cyflwyno gwerth am arian a sicrhau cysondeb;

   d) datblygu dulliau cymorth arloesol newydd ymhellach, a gyflwynwyd yn wreiddiol fel arbrawf i helpu busnesau'r rhwydwaith i ffynnu;

   e) adeiladu ar gysylltiadau â phartneriaid, gan gynnwys y sectorau addysg uwch, addysg bellach a'r sector preifat, fel bod busnesau'n gallu manteisio ar yr arbenigedd a'r cyfleusterau angenrheidiol i dyfu a datblygu;

   f) sicrhau bod busnesau sy'n rhan o'r Rhwydwaith Deori Technoleg yn cael gafael ar yr holl gymorth busnes amrywiol sydd ar gael trwy gynlluniau eraill Llywodraeth y Cynulliad.

14. Roedd cynllun busnes gwreiddiol y prosiect yn rhagweld y byddai angen gwario £7.3 miliwn ar seilwaith TGCh i denantiaid, rhaglen hyfforddi barhaus i reolwyr rhwydwaith fel y gallant ganolbwyntio fwyfwy ar eu rôl graidd o helpu tenantiaid y technium, a strategaeth farchnata a chyfathrebu ar gyfer y

rhaglen gyfan. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r angen am waith ymgysylltu cryfach cyn deori a chyn derbyn tenantiaid.

15. Cafodd cwmni ymgynghorwyr Innovation Partnership ei gomisiynu gan reolwr rhaglen technium i asesu i ba raddau roedd y cynllun busnes yn cyd-fynd â'r argymhellion a'r anghenion a nodwyd yn yr adolygiadau amrywiol, ac i wneud sylwadau ac argymhellion ynglŷn â chynnwys y cynllun busnes. Roedd yr adolygiad yn cefnogi'r cais am arian ar y cyfan, ac yn credu ei fod yn mynd i'r afael ag argymhellion allweddol adroddiad archwiliad mewnol Cymru gyfan, wedi mabwysiadu'r dull cywir o ganolbwyntio mwy ar gymorth busnes yn hytrach na seilwaith ffisegol, yn adlewyrchu casgliadau'r adolygiadau a gwerthusiadau, ac wedi ymgorffori gwersi'r llwyddiannau a methiannau blaenorol. Daeth yr adroddiad i'r casgliad fod y rhaglen technium yn gyffredinol yn cyflawni enillion sylweddol, a gwerth am arian, er bod rhai o'r canolfannau technium unigol yn gweithredu islaw'r lefel ofynnol. Awgrymodd yr adroddiad y gallai llawer o'r targedau fod yn fwy uchelgeisiol a bod angen strategaeth i fynd i'r afael â rhai o'r canolfannau technium sy'n tangyflawni.

*Bydd yr adolygiad presennol o'r rhaglen yn arwain at newidiadau pellach*

16. Cafodd chwech o'r deg canolfan technium eu tynnu o'r rhaglen yn sgil adolygiad polisi 2010. Dywedodd y Dirprwy Weinidog mai perfformiad cymysg y canolfannau technium oedd yn gyfrifol am hyn, a bod angen sicrhau gwell gwerth am arian ac ailganolbwyntio'r ymdrechion i gefnogi amcanion Rhaglen Adnewyddu'r Economi.

17. Mae'r adolygiad presennol (sef prosiect Trefniadau Pontio'r Rhwydwaith Technium) yn cynnwys dau brif amcan:

- Amcan 1: cynllunio a gweithredu strwythur lywodraethu effeithiol ar gyfer y rhwydwaith Technium fel y gall ddod yn elfen flaenllaw o seilwaith arloesi/ymchwil a datblygu yng Nghymru a chryfhau ei rôl fel rhan o'r system ddeori sydd â chysylltiadau agos â Sectorau Adnewyddu'r Economi.
- Amcan 2: rheoli'r broses o dynnu chwe adeilad o'r rhwydwaith Technium mor ddidrafferth â phosibl gan sicrhau bod cymorth ac arweiniad proffesiynol perthnasol ar gael i denantiaid ynglŷn â'r dewisiadau amgen a helpu'u busnesau i barhau.

18. Bydd Amcan 1 yn arwain at greu cynllun busnes diwygiedig ar gyfer y prosiect a ariennir gan yr UE, ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid. Nod y prosiect yw creu amcanion strategol newydd ar gyfer rhwydwaith technium tan 2015; fframwaith lywodraethu a strwythur reoli ddiwygiedig; prosesau busnes clir a chyson; cytundebau lefel gwasanaeth rhwng Llywodraeth y Cynulliad a thenantiaid technium sy'n gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth gadarn am reolaeth a pherfformiad; set newydd o ddangosyddion perfformiad/mesurau llwyddiant; a rhaglen waith i gryfhau'r cysylltiadau rhwng sefydliadau academaidd a sectorau eraill.

19. Mae'n amlwg fod hwn yn adolygiad cynhwysfawr ac mae'n debygol o fynd i'r afael â llawer o'r materion a godwyd mewn archwiliadau, astudiaethau a gwerthusiadau blaenorol.

**Ben Robertson**
**11 Mawrth 2011**

**ATODIAD 1**

## CANOLFANNAU TECHNIUM A RHAI TEBYG ERAILL YNG NGHYMRU

Mae deg canolfan yn aelodau swyddogol o'r rhaglen. Nodwch fod Canolfannau Technium 1 a 2 yn cael eu trin fel un technium gan Lywodraeth y Cynulliad.

| TECHNIUM | SECTOR | BLWYDDYN AGOR | BWRIAD |
|---|---|---|---|
| **Technium 1**<br>(Glannau Abertawe) | Dim sector arbenigol | 2001 | Cadw yn y rhaglen |
| **Technium Digidol**<br>(Prifysgol Abertawe) | Technolegau<br>digidol a meddalwedd | 2003 | Cadw |
| **Technium 2**<br>(Glannau Abertawe) | Dim sector arbenigol | 2004 | Cadw |
| **Technium OpTIC**<br>(Llanelwy) | Opto-electroneg<br>Ehangwyd yn 2009 - dolen | 2004 | Cadw |
| **Technium Aberystwyth**<br>(Aberystwyth) | Gwyddorau biolegol, amgylcheddol a chyfrifiadureg gan gynnwys technoleg ddigidol a'r cyfryngau newydd | 2004 | Tynnu o'r rhaglen |
| **Technium Springboard**<br>(Cwmbrân) | Dim sector penodol.<br>Ymuno â rhwydwaith Technium yn Rhagfyr 2008.<br>Yn eiddo i Gyngor Torfaen | 2005 | Cadw |
| **Technium Digidol@SONY**<br>(Pencoed) | Is-gwmni Technium Digidol Abertawe | 2005 | Tynnu o'r rhaglen |
| **Technium Technolegau Cynaliadwy**<br>(Baglan) | Technolegau cynaliadwy a charbon isel | 2005 | Tynnu o'r rhaglen |
| **Technium CAST**<br>[Canolfan ar gyfer Technoleg Meddalwedd Uwch]<br>(Bangor) | Uwchfeddalwedd | 2005 | Tynnu o'r rhaglen |
| **Technium Peirianneg Perfformio**<br>(Llanelli) | Technolegau modurol, chwaraeon modur, awyrofod a'r diwydiannau morol | 2007 | Tynnu o'r rhaglen |
| **Technium Sir Benfro**<br>(Doc Penfro) | Adnoddau adnewyddadwy a chynaliadwy | 2007 | Tynnu o'r rhaglen |